# Rheoli prinder meddyginiaethau yng Nghymru

# Gwybodaeth i gleifion

## Beth yw prinder meddyginiaethau?

Rhoddir dros 80 miliwn o bresgripsiynau yng Nghymru bob blwyddyn, ac mae'r rhan fwyaf o'r meddyginiaethau hynny'n cael eu dosbarthu heb broblemau. Ond weithiau nid yw cyflenwad y DU o feddyginiaeth yn ateb ein galw amdano. O ganlyniad, efallai y bydd **prinder yn y cyflenwad o feddyginiaethau penodol**.

Gall prinder amharu ar eich cyflenwad meddyginiaethau rheolaidd, a all achosi straen a gofid. Rydyn ni'n gwybod pa mor bwysig yw hi i chi gael eich meddyginiaethau mewn pryd. Ar draws y GIG yng Nghymru, mae llawer o bobl yn gweithio'n galed i gyfyngu ar unrhyw brinder yn eich cyflenwad meddyginiaeth. O ganlyniad, **nid yw'r rhan fwyaf o brinder yn effeithio ar gyflenwad i gleifion**.

## Pam mae prinder meddyginiaethau yn digwydd?

Gall prinder gael ei achosi gan ffactorau fel:

- cynnydd annisgwyl yn y galw
- problemau gyda gweithgynhyrchu
- problemau gyda dosbarthu neu gludo
- mae gwneuthurwr yn rhoi'r gorau i wneud meddyginiaeth
- digwyddiadau neu drychinebau mawr nas rhagwelwyd.

## Beth sy'n digwydd yng Nghymru pan fo prinder meddyginiaethau?

Os oes prinder, mae Llywodraeth Cymru a'r GIG yn gweithio gyda Grŵp Cynghori ar Brinder Meddyginiaethau Cymru, Llywodraeth y DU, gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr meddyginiaethau. Eu nod yw sicrhau nad yw prinder yn amharu ar gyflenwad.

Fodd bynnag, pan allai prinder amharu ar y cyflenwad, mae Llywodraeth Cymru yn dweud wrth weithwyr gofal iechyd sy'n rhagnodi, cyflenwi a darparu meddyginiaethau:

- pa mor hir y disgwylir i'r prinder bara
- pa fersiynau eraill o'r un feddyginiaeth sydd heb brinder
- pa feddyginiaethau eraill sy'n trin yr un cyflwr ac y gellir eu rhagnodi yn lle hynny.

## Beth os yw fy meddyginiaeth yn brin?

Efallai:

- byddwch yn gorfod aros ychydig yn hirach i gael eich meddyginiaeth
- y gofynnir i chi ymweld â fferyllfa wahanol, os yn bosibl
- byddwch yn cael eich meddyginiaeth wedi'i chyflenwi mewn swm llai, ac felly caiff ei chyflenwi'n amlach
- byddwch yn cael eich meddyginiaeth wedi'i chyflenwi mewn cynhwysydd gwahanol
- bydd yn rhaid rhagnodi meddyginiaeth wahanol i chi
- byddwch yn cael meddyginiaeth wahanol gan eich fferyllfa. Weithiau bydd hyn eisoes wedi cael ei gyfarwyddo drwy ganllawiau cenedlaethol a elwir yn Brotocol Prinder Difrifol.

**Dylai unrhyw newid a wneir i'ch meddyginiaeth gael ei gytuno gyda chi fel yr opsiwn sydd orau yn eich amgylchiadau penodol chi.**

Os rhagnodir meddyginiaeth wahanol i chi, byddwch yn cael gwybod sut i'w chymryd, ac am ba mor hir rydych yn debygol o fod yn ei chymryd. Yn aml byddwch yn gallu dychwelyd at eich meddyginiaeth arferol pan fydd y prinder drosodd. Ond weithiau bydd angen i chi barhau ar eich meddyginiaeth newydd.

**Os nad ydych yn siŵr a oes unrhyw beth yn wahanol am eich meddyginiaeth, gofynnwch i'ch fferyllydd, meddyg, deintydd, nyrs, neu weithiwr gofal iechyd arall.**

Mewn achosion prin, efallai na fydd meddyginiaeth amgen addas ar gael. Os bydd hyn yn digwydd bydd eich gweithiwr gofal iechyd yn esbonio beth yw'r camau nesaf i chi.

## Pwy alla i ofyn iddynt am y cyflenwad o'm meddyginiaethau?

Gofynnwch i'ch fferyllydd, meddyg, deintydd, nyrs neu weithiwr gofal iechyd arall os oes gennych unrhyw gwestiynau am gyflenwad eich meddyginiaeth. Gallant roi'r cyngor gorau i chi. Weithiau, os yw arbenigwr fel meddyg ymgynghorol ysbyty wedi rhagnodi eich meddyginiaeth, efallai y bydd angen cysylltu â nhw.

## Beth gallaf ei wneud i helpu i leihau effaith prinder meddyginiaethau?

Mae yna nifer o gamau y gall pob un ohonom eu cymryd.

- Archebwch y meddyginiaethau sydd eu hangen arnoch yn unig – peidiwch â chadw stoc o feddyginiaethau.
- Archebwch eich meddyginiaethau mewn da bryd, oherwydd efallai y byddant yn cymryd mwy o amser i gyrraedd nag arfer.
- Gwiriwch ddyddiadau dod i ben eich meddyginiaethau yn rheolaidd, oherwydd gallai'r rhain fod yn fyrrach nag arfer.
- Parhewch i gymryd eich meddyginiaethau fel y'u rhagnodir ar eich cyfer – peidiwch â newid faint rydych yn ei gymryd oni bai eich bod yn cael eich cynghori i wneud hynny.